OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 999 (Cy.105) (C.43)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
# CYFRAITH TROSEDD, CYMRU
# YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2004

*Wedi'i wneud - - 30 Mawrth 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 93(2) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi a chymhwyso**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2004.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 31 Mawrth 2004**

**2.** Mae darpariaethau canlynol Rhan 6 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn dod i rym ar 31 Mawrth 2004 mewn perthynas â Chymru —

(a) adran 40 (cau mangreoedd swnllyd);

(b) adran 41 (cau mangreoedd swnllyd: atodol);

(c) adran 42 (ymdrin â sŵ n yn y nos);

(ch) adran 43 (hysbysiadau cosbau ar gyfer graffiti a gosod posteri);

(d) adran 44 (ystyr tramgwydd perthnasol);

(dd) adran 45 (derbynebau a derbyniadau cosbau);

(e) adran 47 (dehongli etc.);

(f) adran 48 (hysbysiadau cael gwared ar graffiti);

(ff) adran 49 (adennill gwariant);

(**1**) 2003 p. 38.

(g) adran 50 (canllawiau);

(ng) adran 51 (apelau);

(h) adran 52 (esemptiad rhag atebolrwydd mewn perthynas â hysbysiadau cael gwared ar graffiti);

(i) adran 55 (gwastraff a adawyd yn anghyfreithiol etc.); ac

(l) adran 56 (estyn pwerau awdurdod sbwriel i gymryd camau adfer).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*D. Elis-Thomas*

30 Mawrth 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 31 Mawrth 2004, mewn perthynas â Chymru, ddarpariaethau penodol o Ran 6 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (" y Ddeddf"), sef:

(a) adran 40, sy'n rhoi pŵer i awdurdodau lleol i wneud gorchmynion cau mewn perthynas â mangreoedd swnllyd;

(b) adran 41, sy'n gwneud darpariaethau atodol mewn perthynas â gorchmynion cau;

(c) adran 42, sy'n diwygio Deddf Sŵ n 1996 i estyn y cymhwysiad adrannau 2 i 9 o'r Ddeddf honno at ardal pob awdurdod lleol, i roi disgresiwn i ymchwilio i gwynion am sŵ n yn y nos yn lle'r ddyletswydd y mae awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn ddarostyngedig iddi, ac i roi pŵer i wneud darpariaeth, drwy reoliadau, ar gyfer pa ddibenion y ceir defnyddio'r derbyniadau cosb sy'n dod i law o dan adran 8 o'r Ddeddf honno;

(ch) adran 43, sy'n rhoi pŵer i awdurdodau lleol i ddyroddi hysbysiadau cosbau penodedig i bersonau sydd wedi cyflawni tramgwydd perthnasol yn ardal yr awdurdod;

(d) adran 44, sy'n diffinio ystyr "relevant offence" at ddibenion adran 43;

(dd) adran 45, sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r cosbau sy'n daladwy yn unol â'r hysbysiadau cosbau penodedig o dan adran 43;

(e) adran 47, sy'n gwneud darpariaeth o ran dehongli termau penodol ac sy'n rhoi pŵer i'r person priodol (a ddiffinnir, mewn perthynas â Chymru, fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru) i gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â hysbysiadau cosbau penodedig o dan adran 43;

(f) adran 48, sy'n rhoi pŵer i awdurdodau lleol gyflwyno hysbysiadau cael gwared ar graffiti i bersonau sy'n gyfrifol am arwynebau a ddifwynwyd gan graffiti;

(ff) adran 49, sy'n rhoi pŵer i awdurdodau lleol adennill oddi wrth y personau y cyflwynwyd hysbysiadau cael gwared ar graffiti iddynt unrhyw wariant a dynnwyd yn rhesymol gan yr awdurdod wrth gael gwared ar y difwyniad;

(g) adran 50, sy'n gosod dyletswydd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol yng Nghymru at ddibenion adrannau 48 a 49, ac sy'n gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol hynny i roi sylw i'r canllawiau hynny;

(ng) adran 51, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer apelau yn erbyn hysbysiadau cael gwared ar graffiti;

(h) adran 52, sy'n esemptio awdurdodau lleol a phersonau penodol rhag atebolrwydd dros ddifrod a ddaw o arfer neu honni arfer pwerau penodol ynghylch hysbysiadau cael gwared ar graffiti;

(i) adran 55, sy'n diwygio Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989 a Deddf yr Amgylchedd 1995 i estyn pwerau gorfodi awdurdodau casglu gwastraff, ac sy'n mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi cyfarwyddiadau ynghylch y categorïau o wastraff a ddylai gael blaenoriaeth o dan adran 59 o'r Ddeddf honno a dyroddi hysbysiadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas ag arfer pwerau o dan adrannau 33(1) a 59 o'r Ddeddf honno; ac

(l) adran 56, sy'n diwygio adran 92 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i estyn y categorïau o dir y caiff prif awdurdodau sbwriel gymryd camau mewn perthynas â hwy.

**NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau'r Ddeddf y cyfeirir atynt yn y tabl isod wedi cael neu yn cael eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru yn ogystal â Lloegr gan Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Adran neu Atodlen* | *Dyddiad cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| 1 i 11 | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 18 | 27 Chwefror 2004 | 2003/3300 |
| 23 | 27 Chwefror 2004 | 2003/3300 |
| 25 i 29 | 27 Chwefror 2004 | 2003/3300 |
| 30 i 38 | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 39(1), (2), (3) (yn rhannol), (4), (5) a (6) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 39(3) (y gweddill) | 30 Ebrill 2004 | 2003/3300 |
| 53 | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 57 i 59 | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 60 i 64 | 27 Chwefror 2004 | 2003/3300 |
| 85(1), (2), (3) a (4) (yn rhannol) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 85(8) | 27 Chwefror 2004 | 2003/3300 |
| 86(3) (yn rhannol) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 87 | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 89(1), (2), (3), (4), (6) a (7) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| 92 (yn rhannol) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |
| Atodlen 3 (yn rhannol) | 20 Ionawr 2004 | 2003/3300 |